



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

Dyddiad cyhoeddi: **11 Gorffennaf 2016**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **3 Hydref 2016**

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, a luniwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen bolisi ddrafft hon yn adlewyrchu adborth anffurfiol a gafwyd am fersiwn gynharach a gyhoeddwyd er mwyn llywio'r gwaith o graffu ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru). Mae'n ategu'r ymgynghoriad diweddar ar bennod 6 o *Bolisi Cynllunio Cymru ac ymgynghoriad ar is-ddeddfwriaeth i ategu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016* ac amrywiol ddogfennau canllaw arfer da, a gynhaliwyd ar yr un pryd.

Sut i ymateb

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad yw 3 Hydref 2016. Gallwch ymateb gan ddefnyddio un o'r dulliau canlynol.

E-bost

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad 2 a'i hanfon i:

planconsultations-b@wales.gsi.gov.uk

Post

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad 2 a'i hanfon i:

Yr Ymgynghoriad ar TAN 24
Y Gangen Polisi Cynllunio
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Ymgynghoriad ar bennod 6 o *Bolisi Cynllunio Cymru*, 'Yr Amgylchedd Hanesyddol' (wedi dod i ben)
<http://gov.wales/consultations/planning/proposed-changes-to-planning-policy-wales-chapter-6-the-historic-environment/?skip=1&lang=cy>

Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer is-ddeddfwriaeth i ategu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ac amrywiol ddogfennau canllaw arfer gorau
<http://gov.wales/consultations/cultureandsport/?lang=cy>

Cadw, *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli
Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd
Gynaliadwy* (2011)
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/principles/?lang=cy>

Manylion Cysylltu

Am ragor o wybodaeth am yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â:

Nick Lloyd
Nicholas.Lloyd2@wales.gsi.gov.uk
02920 826802

Brian Davies
Brian.Davies18@wales.gsi.gov.uk
02920 823524

Diogelu Data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai

peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Diben yr ymgynghoriad

1. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn rhan annatod o ddiwylliant a chymeriad Cymru ac mae'n cyfrannu at ein hymdeimlad o le ac at ein hunaniaeth ddiwylliannol. Mae'n hanfodol bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei werthfawrogi, ei warchod a'i reoli, a'i fod ar gael i'w fwynhau, er lles cyffredinol y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.
2. Cafodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016. Mae'r Ddeddf yn rhan o gyfres o ddeddfwriaeth, polisïau, cyngor a chanllawiau sy'n gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau presennol ar gyfer gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru a'i reoli mewn ffordd gynaliadwy.
3. Mae ymgynghoriad ar y fersiwn ddiwygiedig o'r bennod ar yr amgylchedd hanesyddol (Pennod 6) ym *Mholisi Cynllunio Cymru* (PCC) wedi'i gynnal eisoes. Daeth yr ymgynghoriad hwnnw i ben ar 13 Mehefin 2016 a bydd ei ganlyniad a'r fersiwn derfynol o'r bennod ar gael yn ddiweddarach eleni. Mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal hefyd ar gynigion ar gyfer is-ddeddfwriaeth i ategu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ac amrywiol ddogfennau canllaw arfer da:
<http://gov.wales/consultations/cultureandsport/?lang=cy>
4. Cyhoeddwyd Nodyn Cyngor Technegol drafft ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn 2015 er mwyn llywio'r gwaith o graffu ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) wrth iddo fynd ar ei daith drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
5. Mae'r system gynllunio yn chwarae rôl bwysig o ran gwarchod a chadw'r amgylchedd hanesyddol ac mae hefyd, ar yr un pryd, yn ei helpu i ddiwallu anghenion y presennol a pharhau i ymateb iddynt. Bydd y Nodyn Cyngor Technegol yn rhoi cyngor cynllunio manwl ar amgylchedd hanesyddol Cymru, a diben yr ymgynghoriad hwn yn benodol yw ystyried y Nodyn Cyngor Technegol newydd.

Beth yw'r prif faterion?

6. Mae amgylchedd hanesyddol sy'n cael ei warchod yn dda ac sydd ar gael i bawb, ac a fydd yn cyfrannu at ansawdd bywyd a lle ac yn gwella cyfleoedd pobl mewn bywyd, yn flaenoriaeth bwysig i Lywodraeth Cymru.
7. Er mwyn i'r amgylchedd hanesyddol barhau i ddod â manteision gwerthfawr i bobl Cymru, mae angen inni nodi'r hyn sy'n bwysig a rheoli newid mewn ffordd sensitif a chynaliadwy.
8. Bydd y Nodyn Cyngor Technegol yn disodli'r cylchlythyrau ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol a luniwyd ym 1996 a 1998 ac sydd bellach wedi dyddio. Bydd yn gallu ystyried *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer*

*Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*¹, a gyhoeddwyd gan Cadw yn 2011, a chynnwys datganiad cyfredol o ddiben gyda ffocws cryf ar reoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy. Mae hefyd yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu at saith nod llesiant Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru gynaliadwy fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

9. Mae rheoli newid mewn ffordd gadarnhaol ar sail dealltwriaeth lawn o natur ac arwyddocâd asedau hanesyddol, yn ogystal â chydabod y manteision y gallant eu sicrhau a'r rôl y maent yn ei chwarae mewn diwylliant ac economi fywiog, yn hanfodol er mwyn warchod a gwella asedau hanesyddol.
10. Bydd y cyngor manwl a roddir yn y Nodyn Cyngor Technegol ar warchod, rheoli a chadw'r amgylchedd hanesyddol yn sail i benderfyniadau rheoli datblygu a fydd yn sensitif i arwyddocâd asedau hanesyddol ac yn gymesur ag effaith cynigion. Yn ogystal â gwarchod amgylchedd adeiledig a pharciau a gerddi hanesyddol, gall polisiâu cynlluniau datblygu sy'n benodol i'r ardal leol hefyd nodi cyfleoedd cadarnhaol i'w cadw a'u gwella wrth ystyried cynigion datblygu.

Y sefyllfa bresennol

11. Yn ganolog i'r gwaith o gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, pennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru a'r Nodyn Cyngor Technegol newydd hwn, a fydd yn sicrhau y bydd amgylchedd hanesyddol unigryw a gwerthfawr Cymru yn cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy a'i wella.
12. Wrth i ddarpariaethau perthnasol yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ddod i rym ac wrth i ddogfennau cyngor ac arweiniad ategol gael eu cyhoeddi, bydd angen diweddarau'r Nodyn Cyngor Technegol. Bydd y newidiadau'n rhai bach ac ni fyddant yn effeithio ar egwyddorion polisi sylfaenol y ddogfen. Yn hytrach, byddant yn gyfeiriadau ychwanegol at ganllawiau ac at wybodaeth a fydd wedi'i diweddarau.
13. Mae'r Nodyn Cyngor Technegol yn adlewyrchu darpariaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 y bwriedir iddynt gychwyn yn ystod gwanwyn 2017. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau sy'n ymwneud â chofnodion amgylchedd hanesyddol (CAHau) statudol ac ymgynghori, gwarchodaeth interim ac adolygu.
14. Yn ystod 2016 a 2017, bydd rhaglen gam wrth gam yn cael ei chynnal i ymgynghori ar y darpariaethau yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ac ar bolisiâu, cyngor a chanllawiau cysylltiedig, ac i'w rhoi ar waith. Cyhoeddwyd y gyfres gyntaf o

¹ <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?lang=cy>

ddogfennau, sy'n cynnwys canllawiau ar reoli newid sy'n effeithio ar Safleoedd Treftadaeth y Byd, adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth a lleoliad asedau hanesyddol ac asesu'r effaith ar dreftadaeth, fel y bo modd ymgynghori arnynt ochr yn ochr â'r Nodyn Cyngor Technegol.

Yr hyn rydym yn cynnig ei newid

15. Mae adran 1 yn cyflwyno *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli'r Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru mewn Ffordd Gynaliadwy (Egwyddorion Cadwraeth)* sy'n darparu'r sail i Wasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) gyflawni ei ddyletswyddau ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'n esbonio sut y dylent gael eu defnyddio gan eraill i asesu'r effeithiau y gallai cynnig datblygu eu cael ar asedau hanesyddol ac i helpu i wneud penderfyniadau pan fo'r broses gynllunio yn effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol.
16. Mae pwyslais newydd ar yr angen i gael gafael ar dystiolaeth a'i defnyddio, gan gynnwys rôl CAHau ym mharagraffau 1.16 i 1.21. Mae CAHau hefyd yn sail i'r *Egwyddorion Cadwraeth*, sy'n cydnabod bod dogfennu penderfyniadau a dysgu oddi wrthynt yn hanfodol. Mae cael gafael yn hawdd ar wybodaeth am yr amgylchedd hanesyddol hefyd yn cefnogi amcanion cyffredinol ar gyfer gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gorffennol.
17. Mae'r adran yn pwysleisio pwysigrwydd yr ystyriaeth y dylid ei rhoi i effaith datblygiadau arfaethedig ar leoliad asedau hanesyddol. Mae'n rhoi arweiniad newydd ar y ffactorau y dylid eu hystyried wrth asesu'r effaith hon.
18. Yn olaf, mae adran 1 yn cyflwyno cyngor newydd ar y gydberthynas rhwng cadwraeth natur a'r amgylchedd hanesyddol ac yn cydnabod y cysylltiadau pwysig rhwng y ddau. Mae'n pwysleisio bod angen rhoi sylw dyledus i gadwraeth natur wrth asesu cynigion datblygu sydd hefyd yn effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol
19. Mae adran 2 yn canolbwyntio ar yr angen i lunio polisiau sy'n unigryw i'r ardal leol mewn cynlluniau datblygu lleol ac mae hefyd yn rhoi arweiniad newydd ar yr Asesiad Amgylcheddol Strategol cysylltiedig. Mae hefyd yn rhoi arweiniad ar y canllawiau cynllunio ategol mwyaf effeithiol y gellir eu defnyddio er mwyn helpu awdurdodau cynllunio lleol i gyflawni'r polisiau yn eu cynlluniau datblygu.
20. Mae cyngor newydd ar sut i drin Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y broses gynllunio wedi'i gynnwys yn adran 3, gan gynnwys yr angen i ymgynghori â Cadw ar geisiadau sy'n debygol o effeithio ar eu Gwerth Cyffredinol Eithriadol. Mae'n nodi y dylai awdurdodau cynllunio lleol ddiogelu a gwella Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n gyflawn ac yn ddilys.

21. Mae'r adran hefyd yn pwysleisio mai'r ffordd orau o warchod Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd yw drwy bolisïau cynllunio cyson a ategir gan ganllawiau cynllunio ategol.
22. Mae adran 4 yn diweddarau canllawiau blaenorol ar bwysigrwydd gweddillion archaeolegol ac yn atgyfnerthu'r gofyniad i greu cofnod ac archif briodol. Bydd angen diweddarau'r canllawiau hyn ymhellach drwy gyfeirio at safonau priodol ar gyfer archifau archaeolegol pan fyddant ar gael.
23. Mae adran 5 yn ymhelaethu ar y gwaith o warchod adeiladau rhestredig a rheoli newid er mwyn diogelu a gwella eu nodweddion arbennig a sicrhau bod modd parhau i wneud defnydd cynaliadwy ohonynt. Mae paragraff 5.12 yn darparu gwybodaeth am ofyniad newydd lle bydd datganiadau am yr effaith ar dreftadaeth yn disodli datganiadau dylunio a mynediad ar gyfer ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig. Mae'r ymgynghoriad ar y newidiadau gofynnol i reoliadau a chanllawiau ar lunio asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth i'w weld yma:
<http://gov.wales/consultations/cultureandsport/?skip=1&lang=cy>
24. Mae adran 6 yn diweddarau cyngor blaenorol ar y gofyniad i ddiogelu a gwella ardaloedd cadwraeth. Mae paragraff 6.12 yn cyflwyno gofyniad newydd i gyflwyno datganiad o'r effaith ar dreftadaeth gyda chais am gydsyniad ardal gadwraeth. Mae'r ymgynghoriad ar y newidiadau gofynnol i reoliadau a chanllawiau ar lunio asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth i'w weld yma:
<http://gov.wales/consultations/cultureandsport/?skip=1&lang=cy>
25. Mae adran 7 yn adeiladu ar y gofyniad presennol i ystyried y cofnodion ar y gofrestr o barciau a gerddi hanesyddol a'r gofrestr o dirweddau hanesyddol wrth lunio cynlluniau datblygu ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae'n rhoi gwybodaeth am bolisïau a phrosesau y dylai awdurdodau cynllunio lleol gadw atynt er mwyn cyfrannu at y gwaith o warchod a gwella parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig a chadw tirweddau hanesyddol cofrestredig.
26. Mae adran 8 — Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol (Arbennig) — yn cydnabod nad yw pob ased hanesyddol yn cael ei warchod yn statudol fel heneb gofrestredig neu adeilad rhestredig. Mae'n rhoi cyngor newydd i awdurdodau cynllunio lleol er mwyn eu helpu i reoli asedau o ddiddordeb lleol arbennig mewn modd sy'n golygu eu bod yn gallu cyfrannu'n llwyddiannus at y gwaith o gadw a gwella cymeriad lleol. Mae'r adran yn esbonio bod angen nodi statws yr asedau hyn yn glir a gall fod yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio.

Cwestiynau ymgynghori

27. Nodir cwestiynau ymgynghori penodol sy'n ymwneud â'r ymgynghoriad hwn isod. Os hoffech ymateb, llenwch y Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad yn Atodiad 2.

28. Efallai y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad ar wahân. Pe byddai'n well gennych inni gadw eich ymateb yn gyfrinachol, nodwch hynny drwy roi tic yn y blwch perthnasol ar y ffurflen ymateb.

C1	<p>A ydych yn cytuno bod y dull gweithredu a fabwysiadwyd yn sicrhau cydbwysedd rhwng rheoli newid a gwarchod yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru? Os nad ydych, awgrymwch sut y gellid gwneud hynny.</p> <p>Mae cyngor yn adran 1 o'r TAN drafft ar sut i fynd ati mewn modd cynaliadwy i reoli newid sy'n effeithio ar yr amgylchedd hanesyddol.</p>
C2	<p>A ydych yn cytuno bod y cyngor am y berthynas rhwng cadwraeth natur a'r amgylchedd hanesyddol yn glir? Os nad ydych, awgrymwch sut y gellid gwella'r cyngor hwnnw.</p> <p>Mae cyngor yn adran 1 o'r TAN drafft ar y berthynas rhwng cadwraeth natur a'r amgylchedd hanesyddol.</p>
C3	<p>A ydych yn cytuno bod y cyngor i awdurdodau cynllunio lleol ar ddatblygu polisiau a chanllawiau sy'n unigryw i'r ardal leol mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol yn glir? Os nad ydych, awgrymwch sut y gellid gwella'r cyngor hwnnw.</p> <p>Mae gwybodaeth yn adran 2 o'r TAN drafft ynghylch sut y dylai'r broses cynlluniau datblygu lleol ystyried yr amgylchedd hanesyddol.</p>
C4	<p>A ydych yn cytuno bod y cyngor ar sut y dylid ystyried Safleoedd Treftadaeth y Byd yn y broses gynllunio yn glir? Os nad ydych, awgrymwch sut y gellid gwella'r cyngor hwnnw.</p> <p>Mae gwybodaeth yn adran 3 o'r TAN drafft am Safleoedd Treftadaeth y Byd.</p>
C5	<p>A ydych yn cytuno bod y cyngor ar sut y dylid ystyried gweddillion archaeolegol drwy'r broses gynllunio yn glir? Os nad ydych, awgrymwch sut y gellid gwella'r cyngor hwnnw.</p> <p>Mae gwybodaeth yn adran 4 o'r TAN drafft am weddillion archaeolegol.</p>
C6	<p>A ydych yn cytuno bod y cyngor ar sut y dylid ystyried asedau hanesyddol, sef 'parciau a gerddi hanesyddol', 'tirweddau hanesyddol' ac 'asedau o ddiddordeb lleol arbennig', drwy'r broses gynllunio yn glir? Os nad ydych, awgrymwch sut y gellid gwella'r cyngor hwnnw.</p> <p>Mae gwybodaeth yn adrannau 7 i 8 o'r TAN ynghylch sut y dylid ystyried asedau o'r fath drwy'r broses gynllunio.</p>
C7	<p>Rhowch wybod inni am unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw.</p>